Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges
Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

Marsial Cerbydau NPORS N403 (Rhan-Amser)

Mae cwrs Marsial Cerbydau NPORS N403 yn darparu hyfforddiant cynhwysfawr ar bob agwedd ar farsio cerbydau a thraffig. Mae'n cynnwys cydrannau damcaniaethol ac ymarferol, gan gwmpasu diogelwch, cyfathrebu a rheoli traffig.

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion sy'n ymwneud â symud cerbydau ar safleoedd adeiladu, gan gynnwys y rhai sydd wedi bod yn gweithio fel marsialiaid traffig ond nad ydynt wedi cael cymhwyster cymeradwy eto.

Gofynion Mynediad

Rhaid i gyfranogwyr fod â dealltwriaeth dda o Saesneg llafar ac ysgrifenedig. I'r rhai sy'n ceisio Cerdyn CSCS NPORS, mae'n ofynnol iddynt basio Prawf Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd CITB o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rhagolygon Gyrfa

Ar ôl cwblhau'n llwyddiannus, gall cyfranogwyr symud ymlaen i ardystiadau NPORS mwy datblygedig neu ddilyn cymwysterau NVQ perthnasol i uwchraddio eu Cerdyn Gweithredwyr Hyfforddedig Coch NPORS i Gerdyn Gweithredwyr Cymwys Glas.

Modiwlau'r cwrs

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu:
– Trosolwg o'r diwydiant a chyfrifoldebau gweithredwyr
– Llawlyfr y gwneuthurwr a deddfwriaeth berthnasol
– Prif gydrannau a'u swyddogaethau
– Signalau llaw a dulliau cyfathrebu cymeradwy
– Gwiriadau cyn-weithredol a gweithdrefnau diogelwch
– Sefydlu parthau gwaharddedig
– Arwain peiriannau i wahanol gyfeiriadau yn ddiogel
– Ystyriaethau amgylcheddol
– Gweithdrefnau diwedd shifft a chau i lawr

Asesiad

Caiff cyfranogwyr eu hasesu drwy gyfuniad o brofion damcaniaethol (cwestiynau agored a dewis lluosog) a phrofion ymarferol.

DULL ASTUDIO

SC

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS

Undydd

FFIOEDD

19/20 fees: £900